

## Dim diwygiad – dim gobraith

*“Fe’n hadfywia ar ôl deuddydd, a’n codi ar y trydydd dydd, inni fyw yn ei wÿdd.”*  
(*adn. 2*)

### Beth am ddarllen Hosea 6:1–11 ac yna myfrio

Mae’r cwestiwn o ddiwygiad mor ganolog i dynged yr Eglwys fel y dylem sianelu ein holl feddyliau, ein holl weddiâu i’r cyfeiriad hwn. Barn Albert Barnes, esboniwr o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd, ‘Bydd y dydd pan gawn ein perswadio o realaeth ac angenrheidrwydd diwygiad yn ddydd fydd yn gychwyn ar dymor newydd yn hanes crefydd, dydd fydd yn rhagflaenu tymor o fendith nas gwelwyd ers dydd y Pentecost.’ Rwy’n siŵr fod ei eiriau yn parhau yn wir.

Mae’n anodd gennyf gredu pam nad yw pobl yn gweld fod ein holl ymdrechion i efengylu, er eu bod yn glodwiw, yn cael ychydig iawn o effaith. Yr ydym yn byw mewn dyddiau lle mae yna olion gwllith, ond nid yw gwllith yn llanw llynnoedd. Mae’r rhagolygon gyda golwg ar ddyfodol y dystiolaeth Gymraeg yn tystio i gyfnod ar y gorwel lle y bydd ardaloedd helaeth o fewn i’n gwlad heb unrhyw fath o gapel nac eglwys. Yn wir, os na fydd i’r Arglwydd ymweld, ac os parhawn i gau Duw a nerth ei Ysbryd allan o’n gweithgarwch, pa werth sydd i’n tystiolaeth?

Mae ein cynulleidfaoedd yn lleihau, ond mae rhyddfrydiaeth ddiwinyddol yn parhau i gael ei le, er nad yw yn geni plant i’r deyrnas. Beth yw’r ateb? Wel, yn sicr nid ein clyfrwch, nid ein hymdrechion personol, nid cefnu ar y goruwechnaturiol, nid gwadu y gwrthiol. Yn bersonol, nid oes yn fy ngolwg i ddim llai na thywalltiad nerthol o weithgarwch yr Ysbryd Glân yn ddigonol mewn unrhyw gyfnod i eglwys Dduw. A ydym yn barod i wneud y gri yma yn gri ddyddiol, yn barod i ymostwng, i gydnabod ein gwendid?

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Esec. 37:1–14

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd geiriau tŷ Israel?
2. Sut y daeth diwygiad i’r esgyrn?

### Gweddi

O! Dad, mae’r rhain yn ddyddiau anodd. Dyro’r penderfyniad inni nad ydym yn mynd i ollwng gafael ynot nes i ti ein bendithio. Cychwyn dy waith ynof heddiw, Arglwydd. Yn enw Iesu. Amen.